
# Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHEOLI

Mai 2017

Cadw

# Datganiad o Ddiben

Mae *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* yn esbonio beth yw lleoliad, sut mae'n cyfrannu ar arwyddocâd ased hanesyddol a pham mae'n bwysig.

Mae *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* hefyd yn nodi'r egwyddorion a ddefnyddir i asesu effaith bosibl cynigion datblygu neu gynigion ar gyfer rheoli tir o ferwn lleoliadau Safleoedd Treftadaeth y Byd, henebion (cofrestredig ac anghofrestredig), adeiladau rhestredig, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth. Fodd bynnag, maent yr un mor berthnasol i bob ased hanesyddol unigol, ni waeth beth fo'i ddynodiad. Ni fwriedir i'r canllawiau ymdrin â'r effaith ar leoliad yr amgylchedd hanesyddol ar raddfa tirwedd. Ystyrir hyn gan ganllawiau ar wahân.[1]

Mae'r canllawiau arfer gorau hyn wedi'u hanelu at ddatblygwyr, perchenogion, deiliaid ac asiantau, a ddylai ei ddefnyddio i lywio cynlluniau rheoli a chynigion ar gyfer newid a all effeithio ar arwyddocâd ased hanesyddol a'i leoliad. Dylai hefyd eu helpu i ystyried *Egwyddorion Cadwraeth* ar gyfer *Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (*Egwyddorion Cadwraeth*) Cadw er mwyn cyflawni newid sensitif o ansawdd uchel.[2]

Dylai awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau a'u cynghorwyr hefyd ddefnyddio'r canllawiau hyn ochr yn ochr â *Polisi Cynllunio Cymru*,[3] *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*,[4] *Egwyddorion Cadwraeth* a chanllawiau arfer gorau eraill i lywio polisïau lleol ac wrth ystyried ceisiadau unigol am ganiatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad heneb gofrestredig a chydsyniad ardal gadwraeth, gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio.

Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000
E-bost: cadw@wales.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2017
ISBN Digidol 978 1 4734 8701 7
OGL © Hawlfraint y Goron 2017, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle nodir yn whanol. WG26918

Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw, sy'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n dda.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Llun y clawr: Fferm Wynt Mynydd Gorddu, Ceredigion (© Hawlfraint y Goron (2017), Croeso Cymru).

# Cynnwys


**Ffeithiau Cyflym**

**Cyflwyniad**

**1 Beth yw Lleoliad?**

**2 Pryd y Dylid Asesu Lleoliad?**

2.1 Rheoli Asedau Hanesyddol

2.2 Cyflwyno Cais Cynllunio

2.3 Cydsyniad Adeilad Rhestredig, Cydsyniad Heneb Gofrestredig a Chydsyniad Ardal Gadwraeth

**3 Pwy Ddylai Asesu Lleoliad?**

**4 Sut i Asesu Effaith Newid neu Waith Datblygu o fewn Lleoliad Ased Hanesyddol**

4.1 Cam 1: Nodi'r Asedau Hanesyddol

4.2 Cam 2: Diffinio a Dadansoddi'r Lleoliad

4.3 Cam 3: Gwerthuso Effaith Bosibl Newid neu Waith Datblygu

4.4 Cam 4: Ystyried yr Opsiynau ar gyfer Lliniaru Effaith Newid neu Ddatblygiad Arfaethedig

4.5 Dogfennu'r Asesiad

**5 Mesurau Gwrthbwyso**

**6 Gwella'r Lleoliad**

**Atodiad**

Ceisiadau Cynllunio o fewn Lleoliad Heneb Gofrestredig — Meini Prawf ar gyfer Ymgynghori â Cadw

**Cyfeiriadau**

**Rhagor o Wybodaeth**

**Cysylltiadau**

# Ffeithiau Cyflym ¬

1 **Mae lleoliad yn bwysig i'r ffordd y mae asedau hanesyddol yn cael eu deall, eu gwerthfawrogi a'u profi ac mae'n cyfrannu at eu harwyddocâd.**

2 **Mae lleoliad yn aml yn ymestyn y tu hwnt i ffin eiddo, neu 'gwrtil', ased hanesyddol unigol i gyd-destun tirwedd ehangach. Gall ffactorau anniriaethol yn ogystal â ffactorau ffisegol fod yn bwysig er mwyn deall lleoliad ased hanesyddol. Gall y rhain gynnwys swyddogaeth, canfyddiadau synhwyraidd neu gysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol a golygfaol.**

3 **Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn annog awdurdodau cynllunio lleol i ystyried lleoliadau asedau hanesyddol wrth baratoi cynlluniau datblygu a phan fyddant yn penderfynu ar geisiadau cynllunio.**

4 **Pan gynigir newid neu waith datblygu, mae'n bwysig nodi'r asedau hanesyddol y gellid effeithio arnynt, diffinio eu lleoliad a deall sut y mae'r lleoliad hwnnw'n cyfrannu at arwyddocâd yr asedau hanesyddol.**

5 **Os yw newid neu waith datblygu arfaethedig yn debygol o gael effaith ar ased hanesyddol a'i leoliad, dylai'r ymgeisydd baratoi asesiad ysgrifenedig cymesur a gwrthrychol o'r effaith honno er mwyn llywio'r broses benderfynu.**

6 **Dylai cynigion datblygu geisio osgoi unrhyw effaith niweidiol ar ased hanesyddol a'i leoliad.**

7 **Mae'n arfer da i ymgeiswyr drafod gyda'u hawdurdodau cynllunio lleol a gofyn a ddylai cais cynllunio gynnwys asesiad o effaith y datblygiad arfaethedig ar yr ased hanesyddol a'i leoliad.**

8 **Mae'n arfer da sicrhau bod yr adroddiad ysgrifenedig yn ddealladwy i ddarllenwyr nad ydynt yn arbenigwyr. Dylai'r ymgeisydd adneuo copi o'r adroddiad gyda'r cofnod amgylchedd hanesyddol priodol.**

# Cyflwyniad ¬

Mae'r amgylchedd hanesyddol wrth wraidd treftadaeth ddiwylliannol Cymru a'i hymdeimlad o hunaniaeth. Mae'n cynnwys amrywiaeth o asedau hanesyddol, gan gynnwys safleoedd archaeolegol, henebion, adeiladau hanesyddol, parciau a gerddi hanesyddol, tirweddau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth. Mae'n bosibl bod yr elfennau hyn o dirwedd ehangach a trefweddau Cymru yn cael eu defnyddio ers blynyddoedd lawer a'u bod wedi datblygu dros gyfnod hir.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd y mae angen i ni ei drysori a'i warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, nid oes angen i warchodaeth atal newid. Gall newid gynyddu cynaliadwyedd hirdymor a hyfywedd economaidd asedau hanesyddol. Gall hefyd wella ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol yn ogystal â sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd drwy gynyddu gweithgarwch adfywio a thwristiaeth. Gyda'i gilydd, bydd y manteision hyn yn helpu i greu'r Gymru a garem yn y dyfodol drwy gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[5] Ond mae angen rheoli newid i'r amgylchedd hanesyddol, a gall effeithiau unrhyw newidiadau a wneir iddo ymestyn y tu hwnt i asedau hanesyddol unigol a dyna pam mae angen i ni ystyried eu lleoliadau.

# 1. Beth yw Lleoliad? ¬

Mae lleoliad ased hanesyddol yn cynnwys yr ardal o'i amgylch lle mae'n cael ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi, ac mae'n cynnwys unrhyw berthynas a oedd rhyngddo a'r dirwedd o'i amgylch yn y gorffennol ac unrhyw berthynas sydd rhyngddynt ar hyn o bryd.[6] Nid yw'n ddigyfnewid o ran ei faint a gall newid wrth i'r ased a'r hyn sydd o'i amgylch esblygu. Gall yr elfennau sy'n rhan o ased wneud cyfraniad cadarnhaol, negyddol (neu niwtral) i arwyddocâd ased.

Nid yw lleoliad yn ased hanesyddol ynddo'i hun, er y gall tir o fewn lleoliad gynnwys asedau hanesyddol eraill. Mae pwysigrwydd lleoliad yn yr hyn y mae'n ei gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol.

Yn aml, mae lleoliad yn ymestyn y tu hwnt i ffin yr eiddo neu'r 'cwrtil' ac i mewn i'r dirwedd neu'r drefwedd o'i amgylch. Mae llawer o asedau hanesyddol yn weladwy ac mae eu lleoliadau yn amlwg. Fodd bynnag, mae gan y rhai sydd wedi'u claddu leoliad hefyd.

Gall lleoliad ased hanesyddol gynnwys elfennau ffisegol yr ardal o'i amgylch. Gall y rhain fod yn waliau terfyn, caeau cyfagos neu gydberthnasau swyddogaethol a ffisegol ag asedau neu nodweddion naturiol eraill. Er enghraifft, gallai lleoliad ffermdy rhestredig gael ei ddiffinio fel y tir amaethyddol o'i amgylch, nodweddion adeiledig a nodweddion sy'n rhan o'r dirwedd megis adeiladau, ffiniau neu gaeau. Yn yr un modd, gallai lleoliad tŷ injan stêm diwydiannol cofrestredig gael ei ddiffinio fel y dirwedd ddiwydiannol o chwareli, tramffyrdd neu domenni gwastraff sy'n gysylltiedig ag ef.

Gall lleoliad ased hanesyddol hefyd gynnwys elfennau llai diriaethol. Gall y rhain gynnwys swyddogaeth, canfyddiadau synhwyraidd neu gysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol a golygfaol. Er mai golygfeydd tuag at ased hanesyddol ac oddi yno yw'r ffactorau amlycaf yn aml, gall elfennau synhwyraidd eraill effeithio ar leoliad hefyd — er enghraifft, y sŵn sy'n dod o ffordd sydd wedi'i hadeiladu mewn cloddiad, sŵn awyrennau neu ddronau uwchben, neu synau ac arogleuon proses ddiwydiannol newydd mewn adeilad sy'n bodoli eisoes. Gall elfennau o'r fath fod yn fwy goddrychol ac yn anos eu hasesu na ffactorau ffisegol, ond gallant hefyd gyfrannu at leoliad ased hanesyddol.

Nid yw lleoliad ased hanesyddol yn ddigyfnewid ac mae'n bosibl y bydd yn newid dros amser wrth i'r ased a'r ardal o'i amgylch esblygu.[7] Gall y newidiadau hyn gael effaith negyddol ar arwyddocâd ased; er enghraifft, colli'r elfennau ffisegol o amgylch yr ased sy'n ei alluogi i gael ei ddeall neu gyflwyno datblygiad newydd gerllaw sy'n cael effaith weledol fawr. Ond gall newidiadau hefyd gael effaith gadarnhaol sy'n gwella'r lleoliad, megis symud traffig o ran o dref hanesyddol, neu agor golygfeydd, neu adfer ymdeimlad o fod yn gaeedig i safleoedd lle mae'r ymdeimlad hwnnw wedi'i golli.

Yng Nghymru, rydym wedi cyhoeddi rhestr o dirweddau hanesyddol. Yn aml, mae'r tirweddau hanesyddol hynny yn elfennau o'r asedau hanesyddol unigol. Er hynny, nid bwriad y canllawiau hyn yw ymdrin ag effaith newidiadau o fewn lleoliad yr amgylchedd hanesyddol ar raddfa'r dirwedd. Caiff y mater hwnnw ei ystyried mewn canllawiau gwahanol.[8]

### Ffactorau sy'n Cyfrannu at Leoliad Ased Hanesyddol

Mae lleoliad yn disgrifio'r gydberthynas rhwng ased hanesyddol a'r dirwedd neu'r drefwedd o'i amgylch. Mae'n bwysig oherwydd yr hyn y mae'n ei gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol. Gall lleoliad gynnwys amrywiaeth o ffactorau, sef:

- cydberthnasau swyddogaethol a ffisegol â strwythurau/asedau hanesyddol eraill a sut y mae'r rhain wedi newid dros amser
- nodweddion topograffig a ddylanwadodd ar ei leoliad
- cymeriad ffisegol y dirwedd neu'r drefwedd o'i amgylch, gan gynnwys unrhyw waith cynllunio ffurfiol neu ddefnydd tir
- cynllun gwreiddiol yr ased hanesyddol a sut mae wedi newid
- elfennau claddedig neu archaeolegol posibl o amgylch yr ased hanesyddol
- golygfeydd i, o ac ar draws yr ased neu'r lle hanesyddol
- golygfeydd ffurfiol ac wedi'u cynllunio
- amlygrwydd yr ased hanesyddol mewn golygfeydd ledled yr ardal o'i hamgylch
- golygfeydd sy'n gysylltiedig â diben esthetig, swyddogaethol neu ddefodol yr ased; er enghraifft, safleoedd amddiffynnol, ffaglau neu dirweddau a gynlluniwyd

- gall cysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol neu olygfaol neu gysylltiadau ag enwau lleoedd i gyd gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol
- elfennau synhwyraidd eraill — sŵn neu arogleuon sy'n gysylltiedig â'r ased hanesyddol
- llonyddwch, natur anghysbell neu 'naws wyllt' y lleoliad.

# 2. Pryd y Dylid Asesu Lleoliad? ¬

## 2.1 Rheoli Asedau Hanesyddol ¬

Mae'n arfer rheoli da i sicrhau eich bod yn deall lleoliad asedau hanesyddol rydych yn berchen arnynt neu'n eu rheoli. Dylai diffinio a dadansoddi lleoliad ased hanesyddol fod yn rhan o unrhyw ddatganiad o arwyddocâd[9] neu gynllun rheoli cadwraeth. Mae'n rhan o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ein galluogi i ddeall ased hanesyddol a'i arwyddocâd yn llawn. Mae asesiad o leoliad yn ddefnyddiol pa un a oes angen cael caniatâd cynllunio neu gydsyniadau eraill ar gyfer newid arfaethedig ai peidio. Gall newid gynnwys gwaith atgyweirio, gwaith adnewyddu, gwaith adfer a gwaith ailadeiladu, gwaith newydd neu waith addasu, a gwaith dymchwel.

## 2.2 Cyflwyno Cais Cynllunio ¬

Wrth wneud ceisiadau am ganiatâd cynllunio, dylai ymgeiswyr roi gwybodaeth ddigonol, ond cymesur, i'r awdurdod cynllunio lleol er mwyn iddo fedru asesu effaith debygol cynigion datblygu ar ased hanesyddol a'i leoliad mewn:

- Safle Treftadaeth y Byd
- heneb neu olion archaeolegol (cofrestredig neu anghofrestredig) o bwys cenedlaethol[10]
- adeilad rhestredig
- ardal gadwraeth
- parc a gardd hanesyddol gofrestredig.

Gall deall lleoliad ased hanesyddol eich helpu i lunio cynigion datblygu priodol. Gellir defnyddio'r broses hon i nodi dulliau gweithredu amgen a gall eich helpu i gynllunio a dylunio eich cynigion yn well fel eu bod yn lleihau niwed ac yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i arwyddocâd ased hanesyddol a'i leoliad. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu'r awdurdod cynllunio lleol i ddeall y rhesymau dros eich cynigion pan fydd yn penderfynu ar eich cais cynllunio.

Cyn i chi gyflwyno cais cynllunio, mae'n arfer da trafod eich cynnig gyda'r awdurdod cynllunio lleol a, lle y bo'n briodol, â Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw). Mewn trafodaeth cyn ymgeisio, gallwch gadarnhau a yw datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith ar arwyddocâd ased hanesyddol a'i leoliad a pha asesiad y gallai fod angen i chi ei gynnal.[11]

Mae angen i unrhyw asesiad fod yn gymesur ag effaith debygol y cynnig. Ar gyfer cynigion sy'n cynnwys effaith fach iawn ar un ased, mae'n bosibl y bydd asesiad sy'n seiliedig ar restr wirio syml, ynghyd â datganiad byr ar gyfer pob un o'r pedwar cam a ddisgrifir isod, yn ddigon. Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys nifer o asedau neu newidiadau yr ystyrir eu bod yn debygol o gael effaith fawr ar arwyddocâd yr ased, bydd angen dadansoddiad manylach. Mae esboniad llawnach o arwyddocâd i'w weld yn *Egwyddorion Cadwraeth*.[12]

Mae angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol ar fathau penodol o waith datblygu, a allai gynnwys asesu effaith datblygiad ar ased hanesyddol a'i leoliad. Ceir rhagor o wybodaeth a chyngor am asesu effeithiau amgylcheddol ar wefan Llywodraeth Cymru.[13]

Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Cadw ar gynigion datblygu sydd, yn eu barn hwy, o fewn lleoliad heneb gofrestredig (gweler yr atodiad)[14] neu sy'n effeithio ar barc hanesyddol cofrestredig neu ardd hanesyddol gofrestredig neu ar eu lleoliad, neu sy'n debygol o effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd.[15]

## 2.3 Cydsyniad Adeilad Rhestredig, Cydsyniad Heneb Gofrestredig a Chydsyniad Ardal Gadwraeth ¬

Mae lleoliad yn ystyriaeth mewn ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth a chydsyniad heneb gofrestredig. Gall eich asesiad o leoliad fod yn rhan o ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth. Am ragor o wybodaeth, gweler *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru* a *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*.[16]

# 3. Pwy Ddylai Asesu Lleoliad? ¬

At ddibenion ceisiadau cynllunio — yn enwedig achosion cymhleth — dylai'r gwaith o ddiffinio, dadansoddi ac asesu lleoliad ased hanesyddol gael ei gyflawni gan arbenigwr cymwysedig a medrus.[17]

At ddibenion rheoli — megis paratoi cynllun rheoli cadwraeth — a chan ddibynnu ar gymhlethdod a maint asedau hanesyddol a'u lleoliadau, efallai y bydd perchenogion neu grwpiau lleol yn gallu dadansoddi lleoliad fel y nodir yng nghamau 1 a 2 isod. Fodd bynnag, os yw'r achos yn un cymhleth, y peth doeth fyddai trefnu i'r asesiad gael ei gynnal gan arbenigwr cymwysedig a medrus.

# 4. Sut i Asesu Effaith Newid neu Waith Datblygu ar Leoliad Asedau Hanesyddol ¬

Mae'r adran hon yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol y dylai aseswyr a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau eu hystyried wrth asesu effaith newid neu ddatblygiad arfaethedig o fewn lleoliad ased hanesyddol. Yn y bôn, mae pedwar cam.

**Cam 1:** Nodi'r asedau hanesyddol y gallai newid neu ddatblygiad arfaethedig effeithio arnynt.

**Cam 2:** Diffinio a dadansoddi'r lleoliadau er mwyn deall sut maent yn cyfrannu at arwyddocâd yr asedau hanesyddol ac, yn benodol, er mwyn deall sut y mae'r asedau yn cael eu deall, eu gwerthfawrogi a'u profi.

**Cam 3:** Gwerthuso'r effaith bosibl a gaiff unrhyw newid neu ddatblygiad arfaethedig ar yr arwyddocâd hwnnw.[18]

**Cam 4:** Os oes angen, ystyried opsiynau i liniaru neu i wella'r effaith bosibl a gaiff unrhyw newid neu ddatblygiad arfaethedig ar yr arwyddocâd hwnnw.

## 4.1 Cam 1: Nodi'r Asedau Hanesyddol ¬

Mae chwilio am wybodaeth yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, sy'n cael eu curadu gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, yn fan cychwyn allweddol. Mae ffynonellau eraill o wybodaeth yn cynnwys Cof Cymru — sef cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol yng Nghymru,[19] Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru[20] a swyddfeydd cofnodion lleol.

Lle bo hynny'n briodol, gall gwahanol dechnegau helpu i nodi pa asedau hanesyddol a lleoliadau y gallai'r newid neu'r datblygiad arfaethedig effeithio arnynt. Er enghraifft, gall parthau gweledEDD damcaniaethol fod yn arbennig o effeithiol ar gyfer prosiectau mawr neu gymhleth.[21] Fel arall, efallai y bydd asesiad gweledol o nifer o wylfannau yn ddigonol.

Yn ystod cam 1, dylid:

- ystyried manylion lleoliad, maint a graddfa'r newid neu'r datblygiad arfaethedig
- ystyried lleoliad yr asedau hanesyddol a nodwyd
- lle y bo'n briodol, gynnwys cynllun sy'n troshaenu'r parth gweledEDD damcaniaethol ar safleoedd yr asedau hanesyddol.

Bydd cam 1 yn helpu'r aseswr, yr awdurdod cynllunio lleol a, lle y bo'n briodol, Cadw, i gytuno ar faint o waith dadansoddi sydd angen ei wneud er mwyn nodi effaith debygol y newid neu'r datblygiad o fewn lleoliadau'r asedau hanesyddol. Yn achos prosiectau mawr neu gymhleth, gallai cam 1 arwain at asesaid ysgrifenedig byr a fyddai'n caniatáu i'r unigolion a'r sefydliadau dan sylw gytuno ar gwmpas camau 2 a 3.

Dylai cynllun rheoli cadwraeth ar gyfer ased hanesyddol gynnwys unrhyw nodweddion hanesyddol a naturiol sydd y tu allan i'r ffin, ond y gellir eu gweld wrth edrych tuag at yr ased hanesyddol neu oddi yno ac a all gyfrannu at ei arwyddocâd.

## 4.2 Cam 2: Diffinio a Dadansoddi'r Lleoliad ¬

Mae lleoliad ased hanesyddol yn cynnwys y canlynol:

- yr hyn sydd o'i amgylch ar hyn o bryd
- ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r ased hanesyddol ar hyn o bryd

- yr hyn sydd wedi goroesi o'r hyn a oedd o'i amgylch yn hanesyddol (os oes unrhyw beth wedi goroesi).

Nid yw lleoliad yn dibynnu ar hawliau tramwy cyhoeddus na'r gallu i gyrraedd yr ased neu wylfannau ar hyn o bryd, er bod rheini'n gallu gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol a'i leoliad. Yn yr un modd, nid yw nifer yr ymwelwyr â safle neu wylfan yn effeithio ar bwysigrwydd y lleoliad.

Dylai cam 2 nodi'r ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â lleoliad ac sy'n cyfrannu at arwyddocâd pob ased hanesyddol. Mae esboniad manylach o arwyddocâd i'w weld yn *Egwyddorion Cadwraeth*.[22] Gall ateb y cwestiynau isod helpu i ddiffinio arwyddocâd ased hanesyddol, a gall hynny fod o gymorth yn ystod cam 3 wrth asesu'r effaith bosibl a gaiff unrhyw newid neu ddatblygiad arfaethedig o fewn ei leoliad:

- Sut mae'r hyn sydd o'i amgylch ar hyn o bryd yn cyfrannu at ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r ased hanesyddol heddiw?
- Gan feddwl am yr adeg y cafodd yr ased hanesyddol ei adeiladu a'i ddatblygu gyntaf:
  - beth oedd y berthynas ffisegol, swyddogaethol a gweledol â strwythurau/asedau hanesyddol eraill a nodweddion naturiol?
  - pa nodweddion topograffig neu nodweddion cynharach a ddylanwadodd ar ei leoliad?
  - beth oedd y berthynas rhyngddo a'r dirwedd/strydwedd o'i amgylch?
  - a gafodd ei adeiladu er mwyn manteisio ar olygfeydd arwyddocaol neu er mwyn bod yn rhan o olygfa arwyddocaol? Er y gall fod golygfa 360 gradd, mae'n bosibl bod rhai rhannau o'r olygfa yn fwy arwyddocaol nag eraill.
- Gan feddwl am newidiadau ers i'r ased hanesyddol gael ei adeiladu:
  - a yw ei swyddogaeth neu'r defnydd a wneir ohono wedi newid?
  - pa newidiadau sydd wedi digwydd i'r dirwedd/strydwedd o'i amgylch?
  - a yw'r newidiadau wedi digwydd oherwydd newidiadau i'r ased hanesyddol neu i'w leoliad hanesyddol?
  - a yw presenoldeb yr ased hanesyddol wedi dylanwadu ar newidiadau i'r dirwedd, er enghraifft, pan fydd heneb wedi'i defnyddio fel marciwr yng nghynllun cae?
  - a yw presenoldeb yr ased hanesyddol wedi dylanwadu ar gymeriad y dirwedd/strydwedd o'i amgylch?
  - a yw golygfeydd hanesyddol a golygfeydd wedi'u cynllunio i'r ased hanesyddol ac oddi yno wedi newid?
- Gan feddwl am gynllun gwreiddiol yr ased hanesyddol a'i berthynas â'i dirwedd gysylltiedig:
  - a gafodd y berthynas honno ei chynllunio neu a oedd yn ddamweiniol?
  - sut y newidiodd y berthynas honno dros amser?
  - sut mae'r berthynas honno'n ymddangos yn y dirwedd bresennol; a ydynt yn nodweddion gweledol neu gladdedig?
- A oes unrhyw ffactorau pwysig eraill, megis cysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol neu olygfaol, cysylltiadau deallusol (er enghraifft, cysylltiadau â damcaniaeth, cynllun neu ddyluniad) neu gysylltiadau ag enwau lleoedd, neu ffactorau eraill nad ydynt yn

rhai gweledol, megis synau neu arogleuon, a all fod yn hanfodol er mwyn deall yr ased hanesyddol a'i leoliad?

Dylai cam 2 hefyd nodi'r golygfannau o le y dylid asesu effaith y newid neu'r datblygiad arfaethedig, gan ystyried, er enghraifft:

- golygfeydd tuag at yr ased hanesyddol, oddi yno ac ar ei draws, a gafodd eu cynllunio a'u datblygu pan gafodd yr ased hanesyddol ei greu yn y lle cyntaf — er enghraifft, yn achos adeiledd amddiffynnol neu ddefodol.
- golygfeydd tuag at yr ased hanesyddol, oddi yno ac ar ei draws, sy'n gysylltiedig â chyfnod yn ei hanes — er enghraifft, darlun artistig hanesyddol o'r safle
- golygfeydd modern pwysig tuag at yr ased hanesyddol, oddi yno ac ar ei draws — er enghraifft, gwylfannau sy'n boblogaidd ymhlith ymwelwyr.

## 4.3 Cam 3: Gwerthuso Effaith Bosibl Newid neu Waith Datblygu ¬

Gall effaith newid neu ddatblygiad arfaethedig o fewn lleoliad ased hanesyddol fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio neu gydsyniadau eraill. Felly, mae'n bwysig ystyried a ellir ymgorffori'r newid neu'r datblygiad newydd mewn modd sensitif.

Dyma rai o'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth asesu effaith newid neu ddatblygiad arfaethedig o fewn lleoliad ased hanesyddol:

- effaith weledol y newid neu'r datblygiad arfaethedig mewn perthynas â graddfa'r ased hanesyddol a'i leoliad
- effaith weledol y newid neu'r datblygiad arfaethedig mewn perthynas â lleoliad yr ased hanesyddol
- a fyddai'r newid neu'r datblygiad arfaethedig yn dominyddu'r ased hanesyddol neu'n amharu ar ein gallu i'w ddeall a'i werthfawrogi — er enghraifft, y berthynas swyddogaethol neu ffisegol rhyngddo a'r dirwedd o'i amgylch a strwythurau cysylltiedig a/neu olion claddedig
- a oes amgylchedd adeiledig yn yr ardal o amgylch yr ased hanesyddol ar hyn o bryd, beth yw ei faint a'i raddfa, sut gymeriad sydd iddo, a sut y mae'r newid neu'r datblygiad arfaethedig yn cymharu â hynny
- am ba hyd y byddai'r newid neu'r datblygiad arfaethedig yn parhau ac a ellid gwrthdroi'r effaith ai peidio
- maint y gorchudd coed, a yw'n cynnwys coed collddail neu fythwyrdd a pha mor hir y mae'n debygol o fyw
- effaith goleuadau artiffisial — er enghraifft, ar olygfeydd yn ystod y nos
- gallu lleoliad yn y dirwedd i dderbyn newid neu ddatblygiad newydd heb i'w nodweddion allweddol gael eu herydu
- effaith y newid neu'r datblygiad arfaethedig ar elfennau anweledol y lleoliad ac ar gymeriad yr ased hanesyddol, megis naws anghysbell, atgof o'r gorffennol hanesyddol, ymdeimlad o le, hunaniaeth ddiwylliannol neu ymatebion ysbrydol

- effaith elfennau anweledol y newid neu'r datblygiad arfaethedig, megis dileu neu ychwanegu synau ac arogleuon
- effaith gronnol y newid neu'r datblygiad arfaethedig — weithiau gall newidiadau cymharol fach, neu gyfres o newidiadau bach, gael effaith fawr ar ein gallu i ddeall, gwerthfawrogi a phrofi ased hanesyddol.

O gofio y dylai'r asesiad a'r gwerthusiad fod yn gymesur ag effaith debygol y cynnig, gall ffotograffau o'r gwylfannau a nodwyd yn ystod cam 2 helpu i asesu ac esbonio effaith y newid neu'r datblygiad arfaethedig.[23] Gall ffotogyfosodiadau sy'n dangos y newid neu'r datblygiad arfaethedig yn y golygfeydd hyn fod yn ddefnyddiol iawn hefyd. Gall pecynnau System Gwybodaeth Ddaearyddol gynnal adnoddau deongliadol defnyddiol megis fframiau gwifrog, adnodd dadansoddi Viewshed a modelau tir digidol.

Ar ddiwedd cam 3, dylai aseswr yr amgylchedd hanesyddol allu nodi'r effaith y mae unrhyw gynigion yn ei chael o fewn lleoliad yr ased hanesyddol. Mae'n ddefnyddiol mynegi'r effaith honno fel un gadarnhaol, niwtral neu negyddol a rhoi amcan o'i maint.

Gan ddibynnu ar faint yr effaith, dylid ystyried mesurau lliniaru i leihau effaith negyddol y cynigion.

## 4.4 Cam 4: Ystyried Opsiynau i Liniaru Effaith Newid neu Ddatblygiad Arfaethedig ¬

Lliniaru yw'r camau a gymerir i osgoi neu leihau unrhyw niwed i arwyddocâd yr ased hanesyddol a'i leoliad.

Gallai mesurau lliniaru gynnwys, er enghraifft, addasu'r cynllun, newid lleoliad datblygiad neu elfennau penodol ohono, neu gyflwyno mesurau sgrinio. Gallai rhai mesurau wella lleoliad ased hanesyddol, megis cael gwared ar adeiledd neu leiniau o goed sy'n golygu nad oes modd gweld golygfeydd arwyddocaol. At ddibenion cynllunio, byddai angen i fesurau o'r fath fod o fewn ffin y cais.

Fodd bynnag, gallai rhai mesurau lliniaru gael effaith negyddol o fewn lleoliad yr ased hanesyddol. Er enghraifft, gallai sgrin o goed fod yn ffurf anghydnaws mewn tirwedd sydd fel arall yn ddi-goed neu gallai guddio'r cynllun planedig arfaethedig mewn parc neu ardd hanesyddol.

Os bydd effeithiau niweidiol ar leoliad yr ased hanesyddol wedi'u nodi a bod mesurau lliniaru wedi'u cyflwyno, dylid asesu maint yr effaith a'i gynnwys yn yr asesiad terfynol. Dylid cyflwyno mesurau lliniaru i'r awdurdod cynllunio lleol fel rhan o'r adroddiad terfynol i ategu'r cais cynllunio.

## 4.5 Dogfennu'r Asesiad ¬

Mae'n arfer da cyflwyno canlyniadau'r asesiad mewn adroddiad ysgrifenedig sy'n ddealladwy i ddarllenwyr nad ydynt yn arbenigwyr.

Dylai'r ymgeisydd adneuo copi o'r adroddiad gyda'r cofnod amgylchedd hanesyddol priodol fel y bo modd cyfeirio ato yn y dyfodol.

# 5. Mesurau Gwrthbwyso ¬

Ni fydd cyflwyno mesurau gwrthbwyso na chynigion i wneud iawn am unrhyw effaith, megis mynediad cyhoeddus neu baneli dehongli, yn lleihau effaith y datblygiad o fewn lleoliad yr ased hanesyddol ac ni ddylid eu derbyn fel mesurau lliniaru. Serch hynny, dylai cynigion ar gyfer mesurau gwrthbwyso gael eu cyflwyno i'r awdurdod sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn iddo fedru pwyso a mesur manteision y cynllun, gan gynnwys y mesurau i wneud iawn am effaith y datblygiad ar arwyddocâd yr ased hanesyddol a'i leoliad.

# 6. Gwella'r Lleoliad ¬

Gallai dulliau o reoli ased hanesyddol mewn ffordd gadarnhaol, er enghraifft, drwy baratoi cynllun rheoli cadwraeth, gynnwys mesurau i wella lleoliad ased hanesyddol.

Gallai mesurau gwella gynnwys cael gwared ar goed er mwyn agor golygfa arfaethedig,[24] gwella mynediad cyhoeddus i wylfan neu ddarparu deunyddiau dehongli priodol. Dylid bod yn ofalus wrth argymell mesurau gwella er mwyn sicrhau na fydd y gwaith o wella lleoliad un ased hanesyddol yn cael effaith negyddol ar ased hanesyddol arall.

# Atodiad ¬

## Ceisiadau Cynllunio o fewn Lleoliad Heneb Gofrestredig — Meini Prawf ar gyfer Ymgynghori â Cadw ¬

Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) ar bob cais cynllunio sydd, yn eu barn hwy, o fewn lleoliad heneb gofrestredig ac sy'n cwrdd â'r meini prawf canlynol.[25] Bydd angen i geisiadau gynnwys digon o wybodaeth i asesu effaith y cynnig ar yr ased hanesyddol a'i leoliad, ond dylai fod yn gymesur ag effaith debygol y cynnig.

## Y Meini Prawf

Gwaith datblygu sy'n debygol o fod yn weladwy o heneb gofrestredig ac sy'n cwrdd ag un o'r meini prawf canlynol:

- mae o fewn 0.5 cilometr i unrhyw fan ar berimedr heneb gofrestredig
- mae o fewn1 cilometr i berimedr heneb gofrestredig ac mae'n 15 metr neu fwy o uchder neu mae ganddo arwynebedd o 0.2 hectar neu fwy
- mae o fewn 2 gilometr i berimedr heneb gofrestredig ac mae'n 50 metr neu fwy o uchder, neu mae ganddo arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy
- mae o fewn 3 chilometr i berimedr heneb gofrestredig ac mae'n 75 metr neu fwy o uchder, neu mae ganddo arwynebedd o 1 hectar neu fwy
- mae o fewn 5 cilometr i berimedr heneb gofrestredig ac mae'n 100 metr neu fwy o uchder, neu mae ganddo arwynebedd o 1 hectar neu fwy.

# Cyfeiriadau ¬

1 *Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn ystod y Broses o Gynllunio a Datblygu*, (2il) argraffiad diwygiedig gan gynnwys diwygiadau i'r broses asesu (ASIDOHL2), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007 ¬
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/LandscapesRegisterGoodPractice_CY.pdf

2 Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru;
*Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

3 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol ¬
http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy

4 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* ¬
http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy

5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

6 Mae'r diffiniad hwn o leoliad yn ymhelaethu ar yr hyn a nodir yn *Egwyddorion Cadwraeth*. ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

7 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para.1.25 ¬
http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy

8 *Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn y Broses Gynllunio a Datblygu*, (2il) argraffiad diwygiedig sy'n cynnwys diwygiadau i'r broses asesu (ASIDOHL2), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007 ¬
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/LandscapesRegisterGoodPractice_CY.pdf

9 Gweler *Egwyddorion Cadwraeth* ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

10 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.5.5 ¬
http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy

11 Mae'n rhaid i ddatblygwyr ymgynghori â Cadw cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio penodol am waith datblygu mawr: gweler erthygl 2D o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/801/contents/made/welsh fel y'i mewnosodwyd gan erthygl 4 o Orchymyn Diwygio Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2016 http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/59/contents/made/welsh
*Llawlyfr Rheoli Datblygu*, Llywodraeth Cymru
http://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?lang=cy

12 *Egwyddorion Cadwraeth* ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

13 Canllawiau Llywodraeth Cymru ar asesiadau o'r effaith ar yr amgylchedd ¬
http://gov.wales/topics/planning/developcontrol/environmental-impact-assessment/?skip=1&lang=cy

14 Atodlen 4 (I)(i) a (ii) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/59/schedule/2/made/welsh
Gweler Atodiad 1 am feini prawf sy'n ymwneud â henebion cofrestredig.

15 Atodlen 4 (I)(iii) a (v) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/59/schedule/2/made/welsh

16 *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy
*Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy

17 Bydd angen i arbenigwyr cymwysedig a medrus ddangos pa gymwysterau a phrofiad sydd ganddynt, ond gallent gynnwys archaeolegwyr, penseiri tirwedd, haneswyr neu arbenigwyr mewn hanes gerddi, gan ddibynnu ar y math o asedau sy'n cael eu hasesu. ¬

18 I gael rhagor o fanylion am arwyddocâd, gweler *Egwyddorion Cadwraeth* ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy

19 Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol yng Nghymru ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy

20 Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru ¬
http://www.coflein.gov.uk/cy/

21 Mae astudiaethau parthau gweledol damcaniaethol yn diffinio'r ardaloedd y gallai fod yn bosibl gweld datblygiad cyfan neu ran ohono ohonynt drwy gyfeirio at y topograffi oddi amgylch. Nid yw'r dadansoddiad yn ystyried unrhyw arteffactau yn y dirwedd megis coed, coetir neu adeiladau, felly, gelwir yr astudiaeth yn barth gweledol damcaniaethol. ¬

22 *Egwyddorion Cadwraeth* ¬
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

23 Dylid defnyddio'r golygfeydd gorau posibl. Peidiwch â defnyddio golygfeydd sy'n cynnwys adeiladau neu lystyfiant os oes safleoedd sy'n cynnig golygfeydd heb eu cuddio ar gael. ¬

24 Yn ddarostyngedig i reoliadau eraill, megis Gorchmynion Diogelu Coed. ¬

25 Atodlen 4 (I)(i) a (ii) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 ¬
http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/59/schedule/2/made/welsh

# Rhagor o Wybodaeth ¬

## Polisi a Chanllawiau

*Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol
http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy

*Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio*
http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy

*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*
http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy

*Llawlyfr Rheoli Datblygu*
http://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?lang=cy

## Canllawiau Arferion Gorau

*Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw , Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

*Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn ystod y Broses o Gynllunio a Datblygu, (2il) argraffiad diwygiedig gan gynnwys diwygiadau i'r broses asesu* (ASIDOHL2), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/LandscapesRegisterGoodPractice_CY.pdf

*Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy

*Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy

*Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy

*Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy

Datganiad Xi'an ar Gadw Lleoliad Strwythurau, Safleoedd ac Ardaloedd Treftadaeth, ICOMOS, 2005
http://www.icomos.org/charters/xian-declaration.pdf

# Ffynonellau o Wybodaeth Hanesyddol

**Archifau Cymru** — catalog ar-lein sy'n eich galluogi i chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol a gedwir gan 21 o archifau yng Nghymru. https://archifau.cymru/

**Archwilio** — adnodd ar-lein lle gall y cyhoedd weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer ardaloedd pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Archwilio yn cael ei gynnal gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, sydd hefyd yn ychwanegu rhagor o wybodaeth ato. www.archwilio.org.uk

**Cof Cymru** — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchodedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2018.
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?lang=cy

**Coflein** — y mynegai ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru. www.coflein.gov.uk/cy/

**Cynefin** — adnodd ar-lein i ymchwilio i fapiau'r degwm a'u mynegeion yng Nghymru.
http://cynefin.archiveswales.org.uk/cy/

**Cymru Hanesyddol** — porth ar-lein at gofnodion cenedlaethol a rhanbarthol o'r amgylchedd hanesyddol. www.historicwales.gov.uk

**Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru** — mae'n cofnodi'r amryfal ffurfiau a'r sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer nodweddion topograffig, cymunedau, tramwyfeydd, adeileddau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodwyd mewn ffynonellau sy'n rhagddyddio'r Rhyfel Byd Cyntaf.
https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru** https://www.llgc.org.uk/cy/?no_cache=1

# Cysylltiadau ¬

**Llywodraeth Cymru**
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ
Ffôn. 03000 256000
cadw@cymru.gsi.gov.uk
http://cadw.gov.wales/?lang=cy

**Awdurdodau Cynllunio Lleol**
Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
Ffordd Penglais, Aberystwyth, SY23 3BU
Ffôn. 01970 621200
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
https://cbhc.gov.uk/hafan/

**Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru**
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
http://www.coflein.gov.uk/cy/

**Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru**

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan, Y Trallwng SY21 7RR
Ffôn. 01938 553670
trust@cpat.org.uk
http://www.cpat.org.uk/w_index.htm

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Tŷ Cornel,
6 Stryd Caerfyrddin,
Llandeilo SA19 6AE
Ffôn. 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent
Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL
Ffôn. 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
http://www.ggat.org.uk/index_cym.html

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT
Ffon. 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

**Cymdeithasau Amwynder**

Y Gymdeithas Henebion
http://ancientmonumentssociety.org.uk/

Cyngor Archaeoleg Prydain (CBA)
http://new.archaeologyuk.org/

Y Grŵp Sioraidd
www.georgiangroup.org.uk

Y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol (SPAB)
https://www.spab.org.uk/

Cymdeithas yr Ugeinfed Ganrif
www.c20society.org.uk

Yr Ymddiriedolaeth Theatrau
http://www.theatrestrust.org.uk/

Y Gymdeithas Fictoraidd
www.victoriansociety.org.uk

Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru
http://www.whgt.org.uk/

## Dolenni o'r ddogfen hon

Lle mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i wefannau ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partïon, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig. Ni ddylid ystyried bod rhestru dolenni yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Nid oes gan Cadw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd tudalennau y ceir dolenni iddynt ac nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb amdanynt nac am unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o'ch defnydd ohonynt.